Ebrill 2002

Annwyl Gydweithiwr

Canlyniadau ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu newydd a fframwaith arolygu cyffredin.

Hwyrach eich bod yn cofio i mi ysgrifennu atoch ym mis Tachwedd i'ch gwahodd i gynnig sylwadau ar ein hargymhellion ar gyfer trefniadau arolygu newydd a fframwaith cyffredin ar gyfer arolygu ar draws pob sector. Fe eglurais ar y pryd mai'r bwriad oedd ymgynghori ar y materion hyn, a'r cynllun oedd cyflwyno newidiadau ar ôl hynny a gweithredu fframwaith arolygu cyffredin newydd rhwng nawr a 2004. Ysgrifennaf nawr i'ch hysbysu fod canlyniadau'r ymgynghoriad hwn wedi cael eu rhoi ar ein Gwefan yn www.estyn.co.uk. Bydd fersiwn terfynol o'r fframwaith cyffredin hefyd yn cael ei roi yno pan fydd yn barod.

Hoffwn ddiolch i chi i gyd am eich cyfraniadau tuag at yr ymgynghoriad hwn a diolch i'r rhai ohonoch a fu'n rhan o'r gwaith a wnaethpwyd cyn yr ymgynghoriad o fewn fforymau arolygu Estyn. Fel y gwelwch o'r dadansoddiad i'ch ymateb, fe dderbyniodd y cynigion gefnogaeth gref gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae'r ymateb wedi ein cynorthwyo i ganolbwyntio ar y prif faterion ar eich cyfer chi fel darparwyr addysg a hyfforddiant ac i symud ymlaen i'r cam nesaf yn natblygiad y gwaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys paratoi llawlyfrau arweiniad i fynd gyda'r fframwaith. O ganlyniad i'ch sylwadau, byddwn nawr yn gallu diffinio'r modelau arolygu yn fwy eglur, gan addasu'r rhain pan fo angen er mwyn ystyried y materion a godwyd ac er mwyn sicrhau fod pawb yn deall y trefniadau newydd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gyd i weithio gyda'n gilydd er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi ar y datblygiadau newydd hyn.

Yn gywir

Susan Lewis
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros
Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Dadansoddiad o’r ymatebion i ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu newydd a fframwaith arolygu cyffredin

Dadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad Estyn ar drefniadau arolygu newydd a fframwaith arolygu cyffredin

Crynodeb

Fel cyfanswm, cawsom 177 o ymatebion ac roedd llawer o'r rhain yn cynnwys sylwadau ysgrifenedig. Cafwyd ymatebion gan ddarparwyr o bob math yn ogystal â chontractwyr arolygu ysgolion, arolygwyr cofrestredig, awdurdodau addysg lleol (AALl), awdurdodau addysg esgobaethol a sefydliadau athrawon.

Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

Cwestiwn 1 A ydych yn cytuno y dylai'r arolygiad ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau a chyflawniadau dysgwyr?

Roedd naw deg a phump y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor y dylai arolygiadau ganolbwyntio ar brofiadau a chyflawniadau disgyblion. O'r rhain, roedd 62% yn cytuno'n gryf. Dim ond 3% oedd yn anghytuno â'r egwyddor.

Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys:

- yr angen i sicrhau bod peirianweithiau iawn ar gael ar gyfer y bobl ifainc hynny sydd yn llai llafar nag eraill o bosib, gan gynnwys y rheini ag anghenion arbennig. Mae'n bwysig bod pob disgybl yn gallu cyfrannu'n effeithiol at y broses; a
- rhywfaint o bwyslais gan y sectorau ysgolion ac addysg bellach ar yr angen i sicrhau bod y prosesau a fabwysiedir yn cael sampl o ddysgwyr sy'n gynrychiolaeth go iawn ohonynt.

Ymateb Estyn

Mae arolygwyr Estyn bob amser wedi treulio amser yn gwrando ar ddisgyblion ac yn trafod eu profiad a'u cynnydd. Mae Y Wlad sy'n Dysgu yn pwysleisio'r angen i sefydliadau fod yn rhai cynhwysol a'r angen i edrych ar anghydraddoldebau mewn cyflawniad unigolion a grwpiau, er enghraifft, materion ar gyfer disgyblion o gymunedau croenddu a chymunedau lleiafrifoedd ethnig, anghenion disgyblion anabl, anghydbwysedd o ran rhyw mewn cyflawniad a materion dwyieithog a chyfrwng Cymraeg. Byddwn yn edrych yn benodol ar y graddau y bydd ysgolion a darparwyr eraill yn ceisio teilwra cyfleoedd i fodloni tueddiadau, galluoedd a hoffterau pob disgybl. Rydym yn rhoi sylw penodol i bob un o'r agweddau hyn ar brofiad a chyflawniad disgyblion, trwy ddatblygu'n llawlyfrau canllawiau ar gyfer arolygwyr.

Datblygir cofweinyddion manwl ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol gyda chynghorau disgyblion neu grwpiau dysgwyr eraill. Bydd Estyn hefyd yn disgwyl i ddarparwyr fod â threfniadau priodol i wrando ar ddisgyblion ac ymateb i'r materion a godir ganddynt fel rhan o'u trefniadau sicrhau ansawdd. Bydd

Estyn ei hun yn sicrhau y bydd yn sefydlu fforwm i ddisgyblion gyda chynrychiolwyr o blith y disgyblion hynny.

Cwestiwn 2 A ydych yn cytuno y dylai proses hunan-asesu gan y darparwr fod yn fan cychwyn ar gyfer arolygu allanol?

Unwaith eto, cafwyd cymorth da iawn ar gyfer defnyddio hunan-asesu, neu hunan-werthuso fel y mae'n well gan lawer ei alw, fel man cychwyn ar gyfer arolygiadau. Roedd 97% yn cytuno, gan gynnwys 72% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond 1% oedd yn anghytuno.

Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys rhywfaint o bryderon, sef:

- bod darparwyr, yn enwedig yn y sector ysgolion, ar gyfnodau gwahanol iawn o ran hunan-werthuso;
- y gallai ffocws ar hunan-werthuso arwain mewn gwirionedd at fwy o waith papur ac at faich ychwanegol felly o ran biwrocratiaeth.
- bod diffyg cysondeb ar hyn o bryd yn y dulliau o ymdrin â hunan-werthuso.

Ar y pwynt olaf hwn, cafwyd cais clir gan y sector ysgolion, AALl a phartïon eraill â diddordeb yn arbennig, y dylai Estyn ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i bob darparwr ar hunan-werthuso.

Ymateb Estyn

Cred Estyn bod trefniadau hunan-werthuso sydd wedi'u datblygu'n iawn yn ganolog i unrhyw drefniadau rheoli ansawdd. Ni ddylai'r trefniadau newydd felly arwain at unrhyw waith ychwanegol pan fydd arolygiad yn yr arfaeth. Bydd arolygwyr yn defnyddio'r adroddiad hunan-werthuso mwyaf diweddar a'i gynlluniau gweithredu cysylltiedig at y diben hwn. Bydd Estyn yn rhoi arweiniad a hyfforddiant ar y materion hyn fel y bo'n briodol. Yn unol â'r cyngor presennol i ddarparwyr, ac i arolygwyr annibynnol yn y sector ysgolion, bydd Estyn yn parhau i atgoffa pawb ynghylch yr angen i greu cyn lleied o ddogfennaeth â phosibl.

Cwestiwn 3 A ddylai fod gwahanol fathau o arolygu yn ôl lefel y risg ar ran y darparwr?

Cytunai wyth deg a thri y cant o'r ymatebwyr y dylai fod gwahanol fathau o arolygu, gan gynnwys 41% oedd yn cytuno'n gryf â hynny. Roedd 10% yn anghytuno â'r datganiad, gan gynnwys 5% oedd yn anghytuno'n gryf.

Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys:

- yr angen i sicrhau bod y meini prawf ar gyfer asesu risg yn glir, wedi'u safoni, yn hawdd eu deall ac yn eiddo i bawb fel ei gilydd;
- rhywfaint o bryder y gallai ffocws ar risg ddifenwi darparwr cyn i'r arolygiad gael ei gynnal;

- rhywfaint o ofid y byddai'r asesiad risg yn canolbwyntio ar ganlyniadau mesuradwy ac yn anwybyddu cyfraniadau a chanlyniadau llai diriaethol ar ffurf ethos.

Fel pwynt cyffredinol, roedd sectorau o blaid arolygon thematig fyddai'n galluogi Estyn i wneud trosolwg o safonau mewn amrywiaeth o feysydd.

Ymateb Estyn

Ar hyn o bryd mae Estyn yn gweithio i ddatblygu meini prawf teg ar gyfer sefydlu risg ym mhob sector fydd yn cychwyn ymateb arolygu cyfatebol. Bydd y meini prawf hyn yn cael eu seilio ar ddangosyddion clir ac amlwg. Bydd Estyn yn ymgynghori ar y rhain gyda chynrychiolwyr o bob grðp sydd â diddordeb drwy ei fforymau arolygu. Bydd Estyn yn parhau i gynnal arolygon yn unol â'r gorchwyl a roddir iddo gan Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol.

Cwestiwn 4 Pa mor aml ddylai arolygiadau gael eu cynnal?

Cylch chwe blynedd gafodd y gefnogaeth fwyaf (46%). Roedd oddeutu 20% o blaid cylch pum mlynedd. Roedd yn well gan bron i 20% o'r ymatebwyr ddewisiadau eraill rhagor na chylchoedd pum, chwech neu saith mlynedd. Ychydig o gefnogaeth (8%) a roddwyd i gylch saith mlynedd.

Mynegodd rhai ymatebwyr y farn y gallai amlder arolygiadau amrywio yn unol â lefel y risg a unodir ar gyfer pob sefydliad.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn edrych ar y cynnig hwn pan fydd y modelau ar gyfer asesu risg yn cael eu datblygu. Mae'n debygol y bydd Estyn yn mabwysiadu cylch chwe blynedd, fel patrwm cyffredinol arolygiadau yn y rhan fwyaf o'i waith. Bydd gwaith arall sy'n gysylltiedig ag arolygu, megis ymweliadau arolwg ac arolygiadau ardal, yn cael ei wneud rhwng arolygiadau.

Cwestiwn 5 Faint o rybudd ddylid ei roi ynghylch arolygiadau yn eich barn chi?

Roedd y rhan fwyaf yr ymatebwyr eisiau naill ai cyfnod rhybudd o chwe mis (37%) neu gyfnod rhybudd o dri mis (30%). Ychydig o gefnogaeth a roddwyd i gyfnodau rhybudd o flwyddyn neu naw mis. Roedd 13% o'r ymatebwyr o blaid cyfnodau rhybudd eraill.

Roedd yr ymatebwyr yn adnabod gofynion y broses gontractio wrth bennu'r cyfnod rhybudd lleiaf, o leiaf i ryw raddau. Yn gyffredinol, y farn oedd po leiaf cyfnod y rhybudd, gorau oll.

Ymateb Estyn

Mae Estyn yn gwerthfawrogi'r ddealltwriaeth, ar ran y darparwyr, ynghylch yr angen am gyfnod rhybudd addas oherwydd gofynion contractio lle bydd y rhain yn gymwys. Fodd bynnag, mae'n ystyried posibiliadau cwtogi'r broses, tra'n sicrhau system sy'n deg i bawb sydd ynghlwm; mae staff yn Estyn wrthi'n gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu modelau contractio posibl sy'n rhoi ystyriaeth i ofynion statudol presennol, ond sydd eto'n caniatáu ar gyfer cyfnod rhagarweiniol byrrach.

Cwestiwn 6 A ydych yn cytuno y dylai asesu cymheiriaid fod yn nodwedd ym mhob arolygiad?

Cafwyd cefnogaeth dda i'r nodwedd hon gyda 76% o ymatebwyr yn cytuno, gan gynnwys 41% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond 8% oedd yn anghytuno â'r nodwedd, gan gynnwys 4% oedd yn anghytuno'n gryf.

Mynegwyd rhywfaint o bryder gan ymatebwyr o'r sector cynradd y gallai aseswr cymheiriaid â gwybodaeth leol am y darparwr fod â rhagdybiaethau yn ei gylch. Cafwyd cais hefyd fod angen diffinio'r term "cymheiriaid" yn glir ac y dylai fod cysondeb o ran ffocws.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn sicrhau protocolau addas er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro o ran buddiannau, a bod y darparwr yn gallu "mesur a phwyso" aseswyr cymheiriaid. Ar hyn o bryd mae Estyn yn ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r system asesu cymheiriaid lle nad oes system ar hyn o bryd, a bydd yn ymgynghori â'i fforymau arolygu ynghylch y trefniadau a ddaw i'r amlwg.

Cwestiwn 7 A ydych yn cytuno y dylid gwahodd aelod o staff y darparwr i weithio fel enwebai gyda'r tîm arolygu?

Roedd saith deg a dau y cant o ymatebwyr yn cytuno y dylid cael enwebai, gan gynnwys 46% oedd yn cytuno'n gryf. Roedd deuddeg y cant yn anghytuno â'r cynnig, gan gynnwys 6% oedd yn anghytuno'n gryf.

Roedd y materion a godwyd gan yr ymatebwyr yn cynnwys y pryder, yn enwedig o ysgolion bach, y gallai hyn fod yn broblem o ran yr ymrwymiad amser i aelod o staff.

Ymateb Estyn

Mae Estyn yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd. Bydd arweiniad a hyfforddiant manwl yn cael eu datblygu a fydd yn rheoli rôl yr enwebeion. Nid oes unrhyw reidrwydd ar ran y darparwyr i gymryd rhan yn y ffordd hon. Ac ni fydd peidio â chymryd rhan yn cael ei ddehongli'n negyddol. Gall y darparwyr gymryd rhan neu beidio fel y gwelant yn dda.

Cwestiwn 8 A ydych yn teimlo bod yr holiadur ôl-arolygiad, lle bo'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, yn eich galluogi i gofnodi'ch barnau'n briodol?

Roedd deugain ac wyth y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr holiadur yn llwyddiannus, gan gynnwys 11% oedd yn cytuno'n gryf. Roedd un ar ddeg y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad, gan gynnwys 2% oedd yn anghytuno'n gryf. Rhoddodd chwarter yr ymatebwyr dic yn y blwch 'ddim yn gwybod' ac roedd 16% arall ddim yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn ailgynllunio'r holiadur, gan roi ystyriaeth i'r barnau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad, a bydd yn ymgynghori ynghylch ei gynnwys a'i fformat cyn cyflwyno unrhyw ffurflen newydd.

Cwestiwn 9 A ydych yn teimlo bod y trefniadau a nodir yn rhoi'r trefniant gorau ar gyfer adrodd ar y ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion?

Roedd oddeutu traean yr ymatebwyr yn cytuno â'r trefniadau, gan gynnwys 9% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond 5% oedd yn anghytuno â'r trefniadau. Rhoddodd dros draean ohonynt dic yn y blwch 'ddim yn gwybod' ac roedd bron i 20% heb fod yn cytuno nac yn anghytuno, gan ddangos o bosib mai mater ar gyfer rhai darparwyr yn unig yw hwn. Roedd ychydig dros hanner yr ysgolion uwchradd yn cytuno â'r cynnig ac roedd dros un rhan o bumb ohonynt yn anghytuno.

Codod rhai ymatebwyr faterion ynghylch y diffyg cymaroldeb rhwng ysgolion â chweched dosbarth a cholegau o ran ffrydiau ariannu, strwythurau, y modd y caiff data eu cyhoeddi a mater y gofyniad statudol mewn perthynas ag Addysg Grefyddol.

Ymateb Estyn

Mae Estyn yn nodi'r barnau a fynegwyd. Serch hynny, mae ELWa'n gyfrifol am sicrhau cydgyfeiriad o ran trefniadau ariannu ar draws y sector ôl-16, gan gynnwys y ddarpariaeth 16-19 mewn ysgolion. Mae yn gofyn i ni symud ymlaen i sicrhau mwy o gydgyfeiriad o ran arfer arolygu er mwyn creu cyfnod-ôl 16 newydd.

Cwestiwn 10 A yw unodi rhaglenni arolygu cyffredin yn ddull synhwyrol o weithredu i sicrhau cymaroldeb ar draws y sector ôl-16?

Roedd saith deg a chwech y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod hwn yn ddull synhwyrol o weithredu, gan gynnwys 20% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond 6% oedd yn anghytuno. Rhoddodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr dic yn y blwch 'ddim yn gwybod' ac roedd 15% heb fod yn cytuno nac yn anghytuno â'r dull o weithredu.

Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys yr angen i roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng y sectorau. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'r broses arolygu yn cefnogi'r symudiadau tuag at undod.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn nodi'r materion hyn, fel y nodwyd yn yr ymateb i'r cwestiwn blaenorol.

Cwestiwn 11 A ydych yn cytuno â'r dibenion a'r egwyddorion arolygu arfaethedig yn y cyflwyniad i'r fframwaith?

Cafwyd cefnogaeth dda iawn i'r dibenion a'r egwyddorion arolygu gydag 89% yn cytuno â hwy, gan gynnwys 45% oedd yn cytuno'n gryf iawn. Dim ond 4% oedd yn anghytuno.

Ni chodwyd unrhyw bryderon mawr yn yr ymatebion ysgrifenedig a gyflwynwyd.

Ymateb Estyn

Mae Estyn yn croesawu'r gefnogaeth aruthrol i'r egwyddorion ar draws pob sector.

Cwestiwn 12 Mae'r fframwaith arolygu'n cynnig saith cwestiwn allweddol i arwain y gwaith o arolygu darparwr. Ai'r cwestiynau allweddol hyn yw'r cwestiynau cywir i'w gofyn?

Unwaith eto, cafwyd cefnogaeth dda iawn i'r saith cwestiwn. Roedd pedwar ugain ac wyth y cant yn cytuno mai dyma'r cwestiynau cywir, gyda 38% yn cytuno'n gryf. Dim ond 2% oedd yn anghytuno.

Roedd y materion a godwyd yn yr ymatebion ysgrifenedig yn cynnwys yr angen am fwy o elgurder o ran y geiriad mewn un neu ddau o fannau.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn ailystyried y geiriad lle'r oedd yr ymatebwyr yn teimlo y gellid cael mwy o eglurder.

Cwestiwn 13 Mae'r golofn chwith o dan pob cwestiwn allweddol yn y fframwaith yn nodi beth sy'n rhaid ei arfarnu. A yw'r gofynion arfarnu yn ddefnyddiol wrth ateb y cwestiynau allweddol?

Roedd pedwar ugain a phump y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion arfarnu yn ddefnyddiol, gan gynnwys 37% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond oddeutu hanner un y cant oedd yn anghytuno.

Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys.

Ymateb Estyn

Bydd Estyn yn sicrhau bod y gofynion arfarnu'n glir ac yn ddefnyddiol i bawb sydd ynghlwm, ac y bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan arweiniad defnyddiol.

Cwestiwn 14 Mae'r golofn dde o dan pob cwestiwn allweddol yn y fframwaith yn defnyddio datganiadau o arfer da fel meini prawf. A yw'r meini prawf yn ddefnyddiol wrth wneud dyfarniadau?

Roedd pedwar ugain a chwech y cant o'r ymatebwyr yn cytuno bod y meini prawf yn ddefnyddiol, gan gynnwys 42% oedd yn cytuno'n gryf. Dim ond 1% oedd yn anghytuno.

Ni chodwyd unrhyw faterion o bwys.

Ymateb Estyn

Mae Estyn yn nodi'r gefnogaeth i'r meini prawf hyn.